

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 48(3) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2018 Rhif (Cy.)

**NEWID YN YR HINSAWDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd
(Hedfan Rhyngwladol a
Morgludiant Rhyngwladol)
(Cymru) 2018**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu fformiwla ar gyfer canfod pa allyriadau nwyon tŷ gwydr o hedfan rhyngwladol a morgludiant rhyngwladol sydd i'w hystyried yn allyriadau Cymru at ddibenion adran 34(2) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Diben Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yw ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyrraedd targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o Gymru. Mae adran 34(2) o'r Ddeddf yn darparu mai allyriadau Cymru yw'r rheini a allyrrir o ffynonellau yng Nghymru a'r rheini a allyrrir o hedfan rhyngwladol neu forgludiant rhyngwladol sydd wedi eu cynnwys fel allyriadau Cymru yn rhinwedd rheoliadau a wnaed o dan adran 35 o'r Ddeddf.

Yn unol ag adran 49 o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru wedi cael cyngor gan y corff cynghori, ac wedi ystyried y cyngor a gafwyd, cyn gosod rheoliadau drafft.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 48(3) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2018 Rhif (Cy.)

**NEWID YN YR HINSAWDD,
CYMRU**

Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd
(Hedfan Rhyngwladol a
Morgludiant Rhyngwladol)
(Cymru) 2018

Gwnaed ***

Yn dod i rym ***

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad yn unol ag adran 48(3) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016(1).

Cyn i'r drafft gael ei osod, cafodd Gweinidogion Cymru gyngor gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, ac fe wnaethant ystyried y cyngor a gafwyd, yn unol ag adran 49(1) o'r Ddeddf.

Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 35 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Hedfan Rhyngwladol a Morgludiant Rhyngwladol) (Cymru) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016; ac

ystyr “rhestr nwyon tŷ gwydr y DU” (“*UK greenhouse gas inventory*”) yw adroddiad blynyddol y DU i Gynhadledd y Partïon a gyflwynir o dan erthyglau 4 a 12 o Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd a lofnodwyd yn Efrog Newydd ar 9 Mai 1992.

Allyriadau o hedfan rhyngwladol sydd i'w priodoli i Gymru

3. Rhaid i Weinidogion Cymru gymhwyso Atodlen 1 i gyfrifo pa allyriadau nwyon tŷ gwydr o hedfan rhyngwladol sy'n allyriadau Cymru at ddibenion adran 34(2) o'r Ddeddf ar gyfer —

- (a) y flwyddyn sy'n flwyddyn waelodlin ar gyfer y nwy hwnnw, a
- (b) pob blwyddyn galendr rhwng 2016-2050.

Allyriadau o forgludiant rhyngwladol sydd i'w priodoli i Gymru

4. Rhaid i Weinidogion Cymru gymhwyso Atodlen 2 i gyfrifo pa allyriadau nwyon tŷ gwydr o forgludiant rhyngwladol sy'n allyriadau Cymru at ddibenion adran 34(2) o'r Ddeddf ar gyfer —

- (a) y flwyddyn sy'n flwyddyn waelodlin ar gyfer y nwy hwnnw; a
- (b) pob blwyddyn galendr rhwng 2016-2050.

Enw

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad

ATODLEN 1 Rheoliad 3

FFORMIWLA AR GYFER CYFRIFO
ALLYRIADAU BLYNYDDOL
NWyON TŶ GWYDR O HEDFAN
RHYNGWLADOL

$$A = B \times (C/D)$$

yn y fformiwla hon—

“A” yw allyriadau Cymru o’r nwy hwnnw;

“B” yw’r swm o nwy a allyrir gan y Deyrnas Unedig o hedfan rhyngwladol fel yr adroddir yn Rhestr Nwyon Tŷ Gwydr y DU;

“C” yw’r tanwydd a ddefnyddir i hedfan awyrennau i gyrchfannau rhyngwladol o feysydd awyr yng Nghymru;

“D” yw’r tanwydd a ddefnyddir i hedfan awyrennau i gyrchfannau rhyngwladol o feysydd awyr yn y Deyrnas Unedig.

ATODLEN 2 Rheoliad 4

FFORMIWLA AR GYFER CYFRIFO
ALLYRIADAU BLYNYDDOL
NWyON TŶ GWYDR O
FORGLUDIANT RHYNGWLADOL

$$F = G \times (H/I)$$

yn y fformiwla hon—

“F” yw allyriadau Cymru o’r nwy hwnnw;

“G” yw’r swm o nwy a allyrir gan y Deyrnas Unedig o forgludiant rhyngwladol fel yr adroddir yn Rhestr Nwyon TŶ Gwydr y DU;

“H” yw nifer y mordeithiau ar gyfer pob porthladd yng Nghymru; ac

“I” yw nifer y mordeithiau ar gyfer pob porthladd yn y Deyrnas Unedig.